

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 5ed 2024 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Eifion Davies (is-gadeirydd), Rita Jones, Alwyn Jones, Gary Thomas, Eilir Rowlands, Gwenda Evans, Bethan Thomas a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Morris, Iolo V. Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Nodwyd y buddiant ger y ceisiadau ariannol perthnasol.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

i) Bagiau sbwriel wedi cael eu gadael yn y cilfannau, ger Braich Ddu a Merllyn Gwyn, Glanrafon. Nodwyd fod y bagiau dal yno a bod angen gadael Cyngor Gwynedd wybod nad oeddynt wedi cael eu clirio.

ii) Lloches bws Frongoch - Roedd y cynghorwyr wedi ail osod y panel ar gefn y lloches a diolchwyd iddynt am eu gwaith.

iii) Wal gyferbyn a'r capel yng Nglanrafon yn cael ei thrwsio - roeddynt wedi ei ail archwilio ac wedi gwneud trefniadau i gael gwared â'r goeden sydd yn tyfu ym môn y wal ac yn achosi'r dirywiad.

iv) Problemau parcio pentref Llandderfel - cafwyd cadarnhad fod yr heddlu wedi ail ymweld â'r safle ac am drefnu i ddsbarthu taflenni i hysbysu perchnogion y tai cyfagos o'r broblem.

b) Partneriaeth Penllyn (cyfraniad tuag at y gost o dorri llwybrau troed).

Nid oedd y mater wedi cael ei drafod yn y pwyllgor diweddar felly cytunwyd i'w ail drafod pan fydd y contract presennol yn dod i ben.

c) Gwelliannau i'r mynwentydd.

Adroddodd y clerch fod y contractwr wedi gorffen y gwaith torri coed yn Llanfor ac am gychwyn yn Frongoch yn yr wythnosau nesaf. Roedd y contractwr arall wedi gorffen y gwaith tacluso yn Llandderfel ac am symud ymlaen i Lanfor.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd mis Mawrth.

ii) Gorsaf Bleidleisio yng Nglanrafon – roedd Cyngor Gwynedd wedi cysylltu â'r clerch ynglyn â chael lleoliad ar gyfer etholiadau mis Mai.

b) Heddlu Gogledd Cymru.

i) Gwahoddiad i gyfarfod yn Orsaf Y Bala.

c) RWE – Cynllun Fferm Wynt Gaerwen.

i) Cylchlythyr Gaeaf 2023-24.

ch) Amrywiol.

i) Swyddfa'r Cabinet - Cynllun Portread Ei Fawrhydi y Brenin.

ii) Cyfeillion Llŷn - Cynllun Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol – cytunwyd i gydweithio ar unrhyw gynllun a fyddai yn cael ei greu ar gyfer Penllyn.

iii) Papur newydd Y Cyfnod - Ail lansio'r papur wythnosol. Cytunwyd i anfon y cofnodion misol i'r papur.

iv) Cornerstone – cyfarfod i drafod cynlluniau ar gyfer y rhwydwaith gwledig, Ebrill 10fed.

v) Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd gohebiaeth yn ein cyngori fod y ceisiadau isod wedi mynd i apêl:-

Rhif Apêl: CAS-03036-Q1Z5F4 - Codi storfa biswail. Bryn Derw, Glan Yr Afon.

Rhif Apêl: CAS-02987-Z7K0Z5 - Estyniad er lleoli 7 carafan wyliau sydd â chaniatâd ac ymgymryd â gwelliannau amgylcheddol. Parc Cartrefi Gwyliau Pale Wood, Llandderfel,

vi) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol i ddiwedd Chwefror (monitro derbyniadau a thaliadau).

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

b) Llywodraeth Cymru – Adroddiad Blyneddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

i) Adroddiad Blyneddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol - nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y cydnabyddiaeth ddewisol a chytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-Gadeirydd ac nid oedd unrhyw gyfrifoldebau penodol amlwg iddynt. Cytunwyd y dylid ad-dalu'r cynghorwyr am unrhyw gostau teithio ayyb pan yn mynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd y cydnabyddiaeth a oedd yn orfodol, y taliad costau ychwanegol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

c) Taliadau.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- 1) Cyflog a chostau'r Clerc (Ionawr i Fawrth),
- 2) CTHEM (TWE),
- 3) Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth),
- 4) Neuadd Sarnau (Llogi),
- 5) Neuadd Mynach (Llogi),
- 6) Cwmni Ciltalgarth (Torri glaswellt y mynwentydd),
- 7) Gwasanaeth Coed Tom Edwards (Torri coed ym mynwent Llanfor).

Cymeradwyd hefyd i'r clerc archebu a thalu am y meinciau a hysbysfyrdau i'r mynwentydd pan yn briodol a hefyd unrhyw anfonebau sydd yn ymwneud a gwaith a ariannwyd gan Gronfa Melinau Gwynt Clocaenog.

d) Ceisiadau ariannol.

Cytunwyd i gyfrannu fel y ganlyn:-

- 1) Neuadd Mynach - £450 (Bethan Thomas yn datgan buddiant)
- 2) Neuadd Sarnau - £450 (Eifion Davies ac Eilir Rowlands yn datgan buddiant)
- 3) Neuadd Llandderfel - £450
- 4) Ysgol Bro Tryweryn - £250
- 5) Ysgol Ffridd Y Llyn - £250
- 6) Ysgol Godre'r Berwyn - £100
- 7) Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel - £100
- 8) Cylch Meithrin Garn Bach Frongoch - £100
- 9) Hosbis Tŷ Gobaith - £50
- 10) Hosbis Tŷ'r Eos - £50
- 11) CFFI Meirionnydd - £200
- 12) Cantref - £100
- 13) Sioe CFFI Cwmtirmynach - £100 (Rita Jones yn datgan buddiant)
- 14) Ambiwylans Awyr Cymru -£100
- 15) Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel - £100
- 16) Marie Curie Gwynedd - £50
- 17) Urdd Cylch Meirionnydd - £100

- 18) Cyngerdd Telynau Aur Ein Gwlad - £50
- 19) Theatr Derek Williams - £50
- 20) Macmillan - £50

vii) Materion lleol.

a) Gofynnwyd i'r clerics basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

- i) Arwydd plant yn croesi ger Capel Cwmtirmynach wedi diflannu.
- ii) Cyflwr y ffordd drwy bentref Llandderfel yn ddrwg iawn.
- iii) Culvert ar y ffordd rhwng Ysgol Ffridd y Llyn a Llandderfel wedi malu.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai 7fed am
7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.**